**YMCHWILIAD CYHOEDDUS COVID-19 Y DEYRNAS UNEDIG**
**O FLAEN Y FARWNES HEATHER HALLETT**
**YN Y MATER: YMCHWILIAD CYHOEDDUS I ARCHWILIO'R PANDEMIG COVID-19 YN Y DU**

---

# DATGANIAD AR RAN GRŴP TEULUOEDD MEWN PROFEDIGAETH COVID-19 ER MWYN CYFIAWNDER CYMRU ('CBFJ Cymru') AR GYFER Y TRYDYDD WRANDAWIAD RHAGARWEINIOL YN MODIWL 2

**AR 6 MEHEFIN 2023**

---

**Banelwyr**

1. Mae CBFJ Cymru yn deall o ddatganiad y Gwir Anrhydeddus Rishi Sunak ('Prif Weinidog') ar 27 Ebrill 2023 fod y Prif Weinidog yn pryderu am faint o amser y bydd yr ymchwiliad cyhoeddus hwn yn ei gymryd i ddod i'w gasgliadau, a'i fod yn bryderus i osgoi oedi gormodol. Ni ddylai ymchwiliad cyhoeddus trylwyr, trwyadl a gwybodus cael ei roi mewn perygl o bryder i feirniadaeth gyhoeddus. Er nad ydym yn amau trylwyredd y Cadeirydd yn yr achos yma hyd yn hyn, mae CBFJ Cymru o'r farn y byddai mewnbwn panel yn gymorth sylweddol i'r Cadeirydd ac ni ddylai arwain at oedi os caiff ei reoli'n briodol. Mae hyn yn arbennig o wir gan ystyried pryderon CBFJ Cymru sy'n deillio o gynnwys y nifer o ddrafftiau adroddiadau arbenigol sy'n annigonol i raddau helaeth yn eu hystyriaeth o'r gwledydd datganoledig. Rydym yn cyflwyno i'r Ymchwiliad fe fydd panel sydd yn cynrychioli'r gwledydd datganoledig yn cynorthwyo'r Ymchwiliad.

2. Mae CBFJ Cymru yn ymwybodol bod y Prif Weinidog wedi ymgynghori â'r Cadeirydd cyn ei gyhoeddiad. Mae CBFJ Cymru yn gofyn i'r Cadeirydd wahodd trafodaeth ar y mater hwn eto gyda'r Prif Weinidog. Gan ystyried y ffaith na hysbysodd yr Ymchwiliad i'r Cyfranogwyr Craidd ('CCs') bod y Prif Weinidog wedi ymgynghori â'r Cadeirydd, byddai CBFJ Cymru yn gwerthfawrogi'r cyfle i gael gwybod os yw'r Prif Weinidog yn ceisio ymgynghoriad eto, fel bod ein haelodau yn cael y cyfle i fynegi eu barn a pryderon eu hunain i'r Prif Weinidog, drwy'r Cadeirydd, mewn modd amserol ac adeiladol.

**Diweddariad ar Geisiadau Rheol 9**

3. Er bod y Cadeirydd wedi dyfarnu ar ryddhau ceisiadau Rheol 9 i'r CC, mae CBFJ Cymru yn dymuno codi'r pwnc hwn unwaith eto yng ngoleuni'r datganiadau tyst annigonol gan  sydd wedi'u cynhyrchu gan dystion Llywodraeth Cymru ar gyfer Modiwl 1. Mae mwyafrif helaeth y datganiadau tyst hyn wedi methu â mynd i'r afael ag agweddau allweddol ar gynllunio a pharatoi ar gyfer pandemig yng Nghymru. Ar adegau, yn anffodus, mae'n ymddangos nad yw'r Ymchwiliad wedi gofyn yr holl gwestiynau perthnasol.

4. Mae'r mater hwn wedi'i waethygu gan fod rhai tystion o Gymru ym Modiwl 1 wedi methu â chynnwys arddangosion  a chyferir atynt yn ei yn eu datganiadau tyst neu wedi methu cefnogi eu honiadau gyda dogfennau y mae'n amlwg y dylse bod wedi'u datgelu ar y cyfle cyntaf posibl.

5. Er mwyn osgoi diffygion tebyg i ddatganiadau tyst pellach mewn modiwlau diweddarach, ac i atal yr Ymchwiliad rhag mynd ar drywydd tystion am ddatganiadau diwygiedig lluosog, rydym yn gofyn i geisiadau Rheol 9 fod ar gael i CC fel y gellir codi pynciau posibl nad ydynt wedi'u cynnwys yn eu cwmpas ar y cyfle cyntaf posibl. Roedd nifer o aelodau CBFJ Cymru yn ymwneud â'u galluoedd proffesiynol gyda Llywodraeth Cymru, GIG Cymru a sefydliadau eraill sy'n gysylltiedig â'r ymateb pandemig a byddant yn gallu defnyddio'r wybodaeth hon i ganolbwyntio ar geisiadau Rheol 9 yr Ymchwiliad.

6. Mae CBFJ Cymru hefyd yn gwahodd Tîm Cyfreithiol yr Ymchwiliad i ddarparu'r dyddiadau y gall CC ddisgwyl i ddatganiadau tyst a deunyddiau eraill gael eu datgelu ym Modiwl 2. Yn rhannol oherwydd yr angen am ddiwygiadau i ddatganiadau tyst drafft ym Modiwl 1, efallai na fydd gan CC ddigon o amser i adolygu'r deunyddiau hyn cyn i wrandawiad sylweddol Modiwl 1 ddechrau. Er mwyn osgoi ailadrodd y sefyllfa hwn ym Modiwl 2, gofynnwn i'r Cadeirydd egluro a yw'r dyddiad cau, sef diwedd mis Gorffennaf 2023, ar gyfer datgeliad heb ei gwblhau yn ddyddiad cau penderfynnnol i'r fersiynau terfynol o ddatganiadau tyst gael eu rhyddhau a hysbysu i'r CC faint o ddatganiadau tyst y gellir eu rhagweld erbyn y dyddiad hwn.

7. Mae CBFJ Cymru hefyd yn gofyn i'r Ymchwiliad ddatgelu a yw'r pryderon am gynhyrchu deunydd gan nifer o adrannau'r Llywodraeth yn cynnwys cyrff Llywodraethol Cymru. Mae CBFJ Cymru yn pryderu nad yw Llywodraeth Cymru ym Modiwl 1 wedi bod yn ymgysylltu â'r Ymchwiliad i raddau boddhaol ac maent o'r farn y dylid dweud wrth y cyhoedd yng Nghymru os mai dyma yw'r sefyllfa mewn perthynas â Modiwl 2.

**Datgeliad**

8. Mae CBFJ Cymru yn cefnogi ymagwedd a dyfarniad y Cadeirydd mewn ymateb i oedi bwriadol a gwrthodiad y Swyddfa Cabinet i ddatgelu i'r ymchwiliad cyhoeddus hwn deunydd heb ei olygu sydd yn amlwg o bwysigrwydd canolog ac yn berthnasol i'r cylch gorchwyl. Mae CBFJ Cymru yn gobeithio ac yn rhagweld y bydd y Cadeirydd yn mabwysiadu ymagwedd yr un mor gadarn pe bai unrhyw weinyddiaeth ddatganoledig yn ceisio mabwysiadu dull tebyg.

9. Mewn perthynas ag unrhyw gais posibl o dan adran 19 o'r Ddeddf Ymchwiliadau am orchymyn cyfyngu, mae CBFJ Cymru yn cymeradwyo 'r cyflwyniadau a wnaed gan CC di-wladwriaeth eraill. Fel sy'n arferol mewn llawer o ymchwiliadau cyhoeddus eraill, os bydd cais am orchymyn cyfyngu gwahoddir y Cadeirydd i ganiatáu CC i wneud cyflwyniadau ysgrifenedig, a llafar, ar y dull gweithdrefnol i'w fabwysiadu i benderfynu ar geisiadau o'r fath a chaniatáu hawl i gael gwrandawiad ar sylwedd pob cais.

**Deunyddiau sy'n berthnasol i ymgysylltiad Whitehall â'r Gweinyddiaethau Datganoledig**

10. Mae CBFJ Cymru yn bryderus iawn i nodi'r oediad mewn y datgeliad o'r ddogfennaeth hanfodol hwn. Bydd yr Ymchwiliad yn sicr yn sicrhau bod hyn yn cael ei ddatgelu fel mater o frys.

**Cyfarwyddiad tystion arbenigol**

11. Mae CBJF Cymru yn nodi ar gyfer Modiwl 1 nad yw llawer o'r adroddiadau arbenigol terfynol wedi'u cynhyrchu er gwaethaf cyflwyno cynigion tystiolaeth i'r tystion arbenigol hyn, sy'n gofyn am ymateb gan CC. Mae hyn yn creu anhawsterau sylweddol gan ystyried y rhwystr o wneud sylwadau ar y cynigion tystiolaeth heb wybod cynnwys yr adroddiadau terfynol i'w harchwilio gan CTI. Ym Modiwl 2 gofynnir i'r Cadeirydd gyflwyno dyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiadau arbenigol terfynol cyn cyflwyno cynigion tystiolaeth.

12. O ran yr adroddiadau drafft a dderbyniwyd gan dystion arbenigol, mae CBFJ Cymru yn pryderu ynghylch lefel y manylder a'r dadansoddiad mewn perthynas â Chymru. Mae CBFJ Cymru o'r farn bod angen rhagor o fanylion a dadansoddiadau mewn perthynas â Chymru, yn enwedig yng ngoleuni'r ffaith bod yr adroddiadau a baratowyd mewn perthynas â Modiwl 2 wedi'u bwriadu i'w defnyddio ar gyfer Modiwl 2B. O ganlyniad, mae angen mwy o fanylion am bwerau gwneud penderfyniadau yn Cymru a/neu eu diffyg ynghyd â sut y defnyddiwyd y pwerau er mwyn deall yn well sut yr effeithiodd hyn ar yr ymateb i COVID-19 yng Nghymru.

13. Drwy gydol nifer o'r adroddiadau a dderbyniwyd hyd yma, mae cyfeiriadau at y DU gyda diffyg penodoldeb mewn perthynas â gwledydd datganoledig. Prin yw'r gymhariaeth rhwng y gwledydd datganoledig a'r rhyngweithio rhwng llywodraeth y DU a'r gwledydd datganoledig, sydd yn gadael llawer o gwestiynau heb eu hateb o ran sut y gwnaeth y cyrff hyn ryngweithio â'u gilydd yn eu hymateb i'r pandemig.

14. Ar y cyfan, rydym o'r farn bod sylw anghymesur yn cael ei roi i Lywodraeth y DU. Mae yna ogwydd tuag at ganolbwyntio ar San Steffan na ellir ei chyfiawnhau, gan ystyried bod y maes hwn i raddau helaeth iawn wedi'i ddatganoli.

**Craig Court**
**Harding Evans Solicitors**
**RLR**

**Bethan Harris**
**Kirsten Heaven**
**Nia Gowman**
**Laura Shepherd**
**Counsel**

**31 May 2023**